CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.
CYFARFOD MISOL 29ain O FIS IONAWR 2009 AM 7.30PM
NEUADD Y DREF LLANBEDR P.S.

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawodd y Maer Derek Wilsom bawb i'r Cyfarfod.

YN BRESENNOL

Y Maer Derek Wilson (Cadeirydd);
Dirprwy-Faer Selwyn Walters (Is-gadeirydd);
Cyng. Cecilia Barton; Andrew Carter; Elsie Dafis;
John Davies; Margaret Davies-Evans; Greg Evans;
Lynda Mason-George; Robert Phillips; Dorothy Williams.
Cyng. Tref & Sirol Robert (Hag) Harris;
Cyng. Sirol Ivor Williams

Lee Jones *Cyngor Henoed Ceredigion*
Mr Phillip Lodwick a Mr Iori Davies **Cymdeithas Cerddwyr Llambed**

2. YMDDIHEURIADAU

Ymddiheurodd y Cyng.Kistiah Ramaya a'r Cyng Chris Thomas am fethu â bod yn bresennol yn y cyfarfod.

3. FFORWM AR GYFER Y CYHOEDD

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

4. Cyn dechrau'r Cyfarfod derbyniwyd 2 gyflwyniad,

4.1 y cyntaf gan Lee Jones *Rheolwraig Prosiect Cyngor Henoed Ceredigion.* Mae Cyngor Henoed Ceredigion yn darparu gwasanaeth a chymorth i bobl hŷn, eu teuluoeddd a'u gofalwyr. Ymhob agwedd o'u gwaith maent yn ymgynghori â phobl hŷn er mwyn sicrhau eu bod yn ymateb i anghenion a disgwyliadau penodol. Maent yn gweithio'n lleol i sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i bobl hŷn o'r ansawdd uchaf a mae safonau cenedlaethol yn sail i'r holl waith. Maent yn croesawu cyfle i weithio ochr yn ochr ag awdurdodau statudol ac asiantaethau eraill er mwyn rhoi gwasanaeth effeithlon a chost effeithiol.
Roedd y cylfwyniad *Cadw'n Gynnes dros fisoedd y Gaeaf* yn gais i godi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â chadw'n gynnes, cyngor parthed ynni a ffyrdd o ymdopi â biliau ynni. Rhoddwyd gyngor ar ddulliau y gellir eu gweithredu gan yr henoed i helpu eu hun a manylion cyswllt pobl y gallai bod o gymorth.

Tynnodd y Reolwraig Prosiect sylw at weithgareddau a drefnwyd:
24/02/2009: Gwasanaethau/Cefnogaeth Cyngor yr Henoed Ceredigion
28/02/2009: Hybu Materion Ariannol
7/07/2009: Hawliau i Fudd-daliadau
Cynhelir y 3 weithgaredd yn Swyddfa Cyngor yr Henoed, Tŷ Llundain, Aberaeron o 2.00-4.30pm.
Codi Ymwybyddiaeth Sgam: Dydd Mercher 18fed Chwefror 2009: Canolfan Morlan, Aberystwyth 10.00-3.00pm.

Am fanylion pellach am ganolfannau'n Llanbedr Pont Steffan cynghorwyd aelodau i gysylltu â'r Swyddfa yn Aberaeron, Tŷ Llundain, Aberaeron SA46 OAJ Ffôn: 01545 570055 ebost reception@ceredigionageconcern.fsnet.co.uk www.ageconcernceredigion.org.uk

4.2 **Cyflwynwyd yr ail anerchiad gan Mr Phillip Lodwick,** Cadeirydd Cymdeithas Cerddwyr Llambed. Maent yn ceisio cymhorthdal ar gyfer gwelliannau yn ymwneud â llwybrau'r afon ger Bont Llambed. Golyga hyn gwaredu â sticlau a gatiau presennol am gatiau sy'n cau ar ben eu hun a gosod rampiau newydd na ellir llithro arnynt. Y mae dwy rhan i lwybr yr afon, y cyntaf yn ymdroelli o Gae Dash i Barley Mow a'r ail yn ymdroelli ar hyd y caeau i gyfeiriad Pontfaen ar Heol Llanwnnen (cyfanswm o hyd 1.5milltir). Amcan y gwelliannau yw ceisio annog trigolion y fro ac ymwelwyr i gerdded ar lwybr yr afon ac i fwynhau'r wlad. Amcanbris y gost yw oddeutu £8,500. Holwyd petai'r Cyngor Tref yn barod i ariannu ychydig o'r cynllun. Mae'r Cerddwyr yn y broses o geisio grant dan law'r Cyngor Sir megis y *Cynllun Grant Cymunedol*. Tynnwyd eu sylw at y *Cynllun Grantiau Bach* sy'n cael ei gynnig gan y CSC ar hyn o bryd. Roedd aelodau o'r farn mai'r cam doethaf fyddai ail-ystyried cais y cerddwyr am gymorth ariannol ar ôl darganfod beth oedd canlyniad eu cais am grant oddi wrth y Cyngor Sir.

5. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL

5.1 **Datgelodd y Gyng. D.Williams** ddiddordeb personol pan drafodwyd y cais am gymorth ariannol oddi wrth yr elusen Cancr MacMillan a'r Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan.

6. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFODYDD A GYNHALIWYD AR:

6.1 27/11/2008

6.2 8/01/2009

Cytunwyd eu bod yn gywir.

7. ETHOL Y MAER A'R DIRPRWY-FAER AR GYFER Y FLWYDDYN FWRDESITREFOL NESAF

Etholwyd y Dirprwy-Faer Selwyn Walters yn Faer ar gyfer y flwyddyn fwrdesitrefol nesaf.

Etholwyd y Cyng. Robert Phillips yn Dirprwy-Faer ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol nesaf.

Penderfynwyd anfon llythyr atynt yn eu llongyfarch ac i ymholi am y *Datganiad Derbyn Swydd.*

8. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL

8.1 **Hysbysfwrdd sydd wedi ei fandaleiddio ger llyfrgell y dref:** penderfynwyd peidio â gosod drysau newydd ar yr hysbysfwrdd. Byddai posteri, felly, yn parhau i fod heb eu hamddiffyn rhag newidiadau'n yr hinsawdd. Cytunodd y Maer i wneud gwelliannau i gyflwr y ffrâm. Roedd y Cyng. Phillips o'r farn y dylai canllawiau fod mewn lle ar gyfer y fath o boster a ganiatawyd i'w harddangos gan y gallai'r Cyngor Tref (CT) fod yn atebol. Yn nhŷb aelodau eraill, soniwyd y gellid gwaredu â phosteri anaddas ond ni ddiffiniwyd yr hyn a olygwyd gan y gair "anaddas".

8.2 **Cymuned ar y Cyd:** Meithrin cyd-berthynas a siarteri ar gyfer awdurdodau unedol a chynghorau Cymuned a Thref; canllawiau terfynol Llywodraeth Cynulliad Cymru- y ddogfen yn cael ei throsglwyddo o un aelod i'r llall.

8.3 **Cynllun Diogelwch a Chymunedol Ceredigion 2008-11: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion**: - y ddogfen yn cael ei throsglwyddo o un aelod i'r llall**.**

8.4 **Bin Ail-gylchu:** boed i'r Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn caniatâd i leoli'r bin yn ardal Sgwâr Harford: yn disgwyl clywed oddi wrthynt parthed y mater er bod caniatâd ar lafar wedi derbyn oddi wrth Mr Geraint Hughes CSC.

8.5 **Tir Ym Maesyderi** (Yr Hen Gae Chwarae yr Ysgol Gynradd): llythyr oddi wrth y Cyngor Sir yn cynnig cyfle i'r CT i logi'r cae am gyfnod i fyny at 3 blynedd. Cytunwyd i geisio cyfarfod rhwng cynrychiolaeth y CT a'r CSC, Adran yr Ystadau, gyda'r bwriad o drafod amodau'r llog.
Cytunwyd i gefnogi'r Mesur Caeau Chwarae Arfaethedig 2008 (Ymateb y Gymuned i benderfyniadau Gwaredu) (Cymru). Petai'n dod i rym byddai'n atgyfnerthu cais y CT i gynnal y cae fel amwynder ar gyfer trigolion y fro ac o gymorth i'w atal rhag ei gynnwys o fewn y Cynllun Datblygu Lleol CSC, fel tir ar gyfer adeiladu.

8.6 **Llogi'r Cae Bryn:** Gwybodaeth oddi wrth Mr Cen Powell *Rheolwr Ystadau ac Eiddo Prifysgol Llanbedr PS* yn adrodd bod y llog ar y cae yn dirwyn i ben ar y 12fed o Ebrill 2009. Pan fydd yr amser yn briodol y drefn yw gwahodd cynigion mewn amlen gaeëdig ar gyfer adnewyddu'r llog am gyfnod penodedig. Bydd yn hysbysu'r CT pan fydd yr amser yn briodol.

8.7 **Trefi Taclus**: boed i'r Clerc gysylltu â Rachel Mills Cydlynydd Balchder Bro CSC sy'n gyfrifol am y cynllun "Trefi Taclus" sef bartneriaeth tair blynedd o hyd rhwng CSC a Chadw Cymru'n Daclus a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhoddwyd grant o £104,000 y flwyddyn i Geredigion tra bo'r prosiect yn mynd rhagddo. Dylai prosiectiau wella ansawdd y cynefin lleol a chynnwys y gymuned. Eglurodd y Cydlynydd Balchder Bro CSC y sefyllfa parthed cais y CT.

- **8.7.1** **Bin Ail-gylchu ar gyfer y dref;** gallai ei gynnwys o fewn y cynllun ond cyfrifoldeb y CT fydd gwacau a chynnal y bin neu talu costau ychwanegol i'r CSC. Mae tipio anghyfreithlon yn broblem sydd wedi ei hamgyffred mewn nifer o drefi.
- **8.7.2** **Cael gwared â'r graffiti di-olwg** ee ar bont y rheilffyrdd; gellir galw ar gymorth y tîm o gamweithredwyr ar brawf i ymgymryd â'r gwaith.
- **8.7.3** **Cymorth i logi/prynu yr hen gae chwarae'r hen ysgol** a'i drawsnewid i faes chwarae a chynefin fioamrywiaeth; byddai hyn yn dibynnu ar amodau'r les.
- **8.7.4** **Ffens a mynedfa newydd ar gyfer Parc-yr-Orsedd;** yn anhebygol i'w caniatau o fewn amodau'r cynllun.
- **8.7.5** **Peintio Neuadd y Sgowtiaid:** mae'n adeilad rhestredig felly nid yw'n bosibl i'w beintio. Gellir ymgymryd â gwaith cynnal a chadw yn ymwneud â'r Neuadd.
- **8.7.6** **Cŵn yn Baeddu:** i glustnodi sylw pellach i'r cais.

8.8 **Seddau ar gyfer y Swyddfa'r Post**, Llanbedr PS: gwybodaeth yn mynegi bod penderfyniad i osod seddau yng nghyffiniau'r Swyddfa Post (SP) yn nwylo'r Cwmni'r Co-op ac nid y SP. Y Clerc i anfon llythyr at bencadlys y Co-op ym Manceinion. Anfonwyd llythyr blwyddyn ynghynt i Reolwr Y Co-op Llanbedr PS a boed i nifer o geisiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig gael eu cyflwyno i'r Swyddfa Post Cyf.

8.9 **Newid Enw Lle**: Y mae Kay Hughes *Swyddog Prosiect Newyddiadurwr Tir ac Eiddo Lleol* CSC yn clustnodi sylw pellach i'r mater a'r broses i'w ddilyn ar gyfer newid enw lle. Cynigwyd *Parc St Germain Sur Moine* fel enw addas. Boed i aelodau ymgynghori â'r cyhoedd i holi eu barn eisoes ond roedd y Gyng Mason-Goerge o'r farn bod angen ymgynghoriad pellach. I'r diben hwn

penderfynwyd gofyn am awgrymiadau pellach gan aelodau'r cyhoedd drwy gysylltu â'r Wasg.

8.10 Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru -Gweithdŷ 10/12/2008 – Coleg Y Drindod, Caerfyrddin: Boed i'r Clerc fynychu'r Cyfarfod. Diben y Comisiwn yw cynnal arolygon o ardaloedd llywodraeth leol a threfniadau etholiadol yng Nghymru, gyda'r bwriad o ystyried a ddylid cyflwyno cynigion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i weithredu newidiadau sy'n ymddangos i'r Comisiwn yn rhai sy'n ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Boed i'r Drafodaeth Ryngweithiol gynnwys:

8.10.1 A yw nifer y Cynghorwyr i'r pleidleiswyr yn gywir? Cyngor Tref Llanbedr PS (114:1); Cyfartaledd Cenedlaethol (Cymru) (205:1); mae nifer fawr o gynghorau bach a mae cymhareb yr etholwyr i gynghorwyr yn isel. Mae potensial i leihau nifer y cynghorau trwy broses o gyfuno, a phennu cymhareb uwch etholwyr i gynghorwyr.

8.10.2 Creu Cysylltiadau Cliriach: ymgynghoriad digonol; osgoi'r defnydd o faldordd ac acronym.

8.10.3 Beth sy'n gwneud ffiniau gwell? – nid yw ffiniau'n cael eu dylanwadu gan ffiniau naturiol ee afon. Y gymuned sy'n dylanwadu ar y ffin ac nid i'r gwrthwyneb.

8.10.4 Beth allem ei wneud yn well? Gwella dulliau cyfathrebu,
Yn yr Etholiad 2008 (Cyngor Cymuned) roedd 68% o seddi'n ddiymgeisydd; yn Llanbedr PS roedd 100% o seddau'n ddiymgeisydd. Yn 2008 roedd 12% o seddi Cynghorau Tref a Chymuned yn parhau'n wag. Yn Llanbedr PS roedd 6% o seddau'n parhau'n wag. Gall y gyfran gymharol uchel o seddau sy'n dal yn wag adlewyrchu amrywiaeth o resymau ar gyfer pob ardal o ran buddiannau cymunedol ac ati. Mae llawer o seddau gwag yn cael eu llenwi drwy'r broses cyd-ethol aelodau ychwanegol. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod 68% o gynghorau'n cael eu hethol yn ddiymgeisydd yn awgrymu bod materion yn bodoli o hyd ynglŷn â'r broses ddemocrataidd ei hun.

8.11 Ffôn Tâl: Teras Peterwell: gwybodaeth a dderbyniwyd gan BT yn mynegi bod y ffôn ciosg wedi ei ddileu. Gwaredir â'r ciosg yn ystod y dyfodol agos.

9. GOHEBIAETH

9.1 Sedd Wag: Cyngor Tref Llanbedr PS: (yn cynnwys 15 sedd): mae'r sedd wedi bod yn wag ers y 1af o Fai 2008 pan etholwyd 14 Cynghorydd Tref yn ddiwrthwynebiad gan adael un lle gwag. Derbyniwyd datganiad o ddiddordeb i lenwi'r sedd gan Mr Noel Davies. Yn ei gais soniodd iddo wasanaethu ar y CT o 1973-1997 a boed iddo gymryd rôl y Maer ar 3 achlysur. Rhoddwyd ystyriaeth i bolisi'r CT a roddwyd yn ei le y mis Medi ynghynt, sef polisi i beidio â chydethol aelodau newydd. Cynigwyd newid y polisi a phleidleisiwyd ar y cynnig: 4 pleidlais i beidio â newid y polisi; 3 pleidlais i newid y polisi a 5 atal pleidlais. Penderfynwyd diolch i Mr Davies am ei ddiddordeb.

9.2` Neuadd y Dref, Llanbedr Pont Steffan

9.2.1 Gwybodaeth a dderbyniwyd gan Mr Richard Marks, Cyfreithiwr CSC ar yr 11eg o Ragfyr 2008 yn cyfleu bod y CSC wedi cyfnewid cytundeb i werthu Neuadd y Dref i Ymddiriedolwyr Highmead. Mae amodau'r gwerthiant yn cynnwys cyfamod gan y prynwr i ganiatau'r CT i ddefnyddio yr Hen Brif Ystafell Lys heb dâl ar gyfer Seremoni Urddo'r Maer tan 2013. Ar ôl hynny byddai'n ofynnol i'r CT a'r Ymddiriedolwyr i ddod i ryw fath o gytundeb i ganiatau'r CT i gynnal eu cyfarfodydd mewn lle addas o fewn y Neuadd (yr ystafell gyferbyn â'r carchar, ond

nid yw'r ystafell yn fwy o ran maint na'r ystafell bresennol) am log rhesymol neu cost trywydded.

9.2.2 Defnydd o'r Ystafell Bwyllgor: ebost oddi wrth Mr Roger Clive-Powell yn mynegi eu bod ar fin trin y pydredd coed (dry-rot) yn ystafell Bwyllgor Cyngor y Dref ac ni fydd yn bosibl i'r CT i gwrdd yma eto ar ôl y cyfarfod y noson hon. Bydd y gwaith yn cynnwys cwrs o fewnsaethiad "damp-proof" a newid y concrîd yn gyfangwbl. Dros hir-dymor, maent yn chwilio am ddefnydd ar gyfer Uned Siop 2 a fydd yn cydfynd â gweithgareddau'r Ganolfan Cwiltiau. Gallai'r Ystafell Bwyllgor gael ei chynnwys o fewn uned y Siop er mwyn creu uned aml bwrpas.
Y mae cryn dipyn o bydredd coed wedi ei ddarganfod yn yr adeilad a bydd yn ofynnol i'r Ymddiriedolwyr i'w waredu i gyd. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid defnyddio ychydig o'r gyllideb a glustnodwyd ar gyfer trosi'r adeilad yn Ganolfan Cwiltiau.

9.2.3 Mae angen lle newydd ar gyfer storio dodrefn y CT sydd ar hyn o bryd wedi eu storio yn Neuadd y Dref megis 12 cadair goch ledr; 2 gadair Eisteddfod; Bwrdd Anrhydeddu; Panel Mawr. Cytunwyd gofyn i'r Ysgol Gynradd ac Uwchradd petai'n bosibl iddynt leoli un cadair yr un yn eu hysgol. Cytunodd y Cyng. Greg Evans i ddarganfod lle i storio'r Bwrdd Anrhydeddu. Penderfynwyd ceisio lle i storio gweddill y dodrefn. Yn sgîl y newidiadau dywedwyd bod angen lle newydd ar gyfer cynnal cyfarfodydd y CT. Penderfynwyd i ddarganfod lleoliad dros dro ar gyfer cyfarfod mis Chwefror ac i drafod y mater am leoliad parhaol yn ystod y cyfarfod hwn.

9.3 Asesiad Strategol Trosedd ac Anrhefn Ceredigion 2008: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yr Heddlu: diben yr Asesiad yw darparu gwybodaeth a dealltwriaeth o broblemau diogelwch cymunedol a fydd yn galluogi'r Bartneriaeth i geisio cynnig gwasanaeth effeithiol. (y Maer i ymateb ar ran y Cyngor Tref)

9.4 Y Brifysgol Newydd: Gweledigaeth, Cenhadaeth a Strategaeth: Prifysgol Llambed: Ym mis Rhagfyr, cytunodd Cyngor Prifysgol Llanbedr PS a Bwrdd Llywodraethwyr Coleg y Drindod Caerfyrddin, wedi ystyried adroddiad cyd weithgor a benodwyd i edrych ar fanteision posibl cydweithredu, i gydweithio i sefydlu prifysgol newydd. O dan arweinyddiaeth y Dr Medwin Hughes, sef Prifathro Coleg y Drindod, Caerfyrddin ar hyn o bryd ac a benodwyd erbyn hyn yn Ddarpar Is-Ganghellor, bydd y brifysgol newydd yn adeiladu ar draddodiadau ac adnoddau'r ddau sefydliad. Cytunwyd i wahodd Dr Medwin Hughes i gyfarfod dyfodol y Cyngor Tref.

9.5 Gorchymyn Cynnal Coed: Cae Coffa, Heol Y Gogledd, Llanbedr PS:derbyniwyd llythyr oddi wrth Mr Paul Evans, Swyddog Bywyd y Wlad CSC, yn mynegi pryder parthed yr hen dderwen a saif ar y safle yr enwir uchod, sydd yn bwdwr. Mae'r Cyngor Sir wedi asesu'r goeden ac o'r farn y dylid ei cwympo oherwydd pryderon ynghylch ei chadernid. Roedd aelodau o'r un farn â'r Cyngor Sir ynglŷn â'r hen dderwen ond eu dymuniad hwy yw plannu coeden addas yn ei lle.

9.6 Llythyr gan Mr Jamie McCormack Jones 2 Glyndwr, Teras-yr-Orsaf, Llanbedr PS, yn gofyn am y ddarpariaeth o arwydd stryd ar gyfer 5 Tŷ Teras Glyndwr. Awgrymodd 1-5 Glyndwr. Mae wedi profi anhawster pan yn derbyn trosglud. Penderfnwyd cysylltu â'r Cyngor Sir parthed y cais.

9.7 Cyngor Iechyd Cymunedol: yn amlinellu dyddiadau ar gyfer digwyddiadau'r dyfodol.

9.8 **Llythyr gan Elin Jones AC yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda i holl aelodau'r** Cyngor Tref a bod croeso iddynt gysylltu â hi os oes angen cymorth arnynt fel Cyngor neu fel unigolion yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Gellir cysylltu â hi yn Nhŷ Goronwy, 32 Heol y Wig, Aberystwyth SY23 2LN neu elin.jones@wales.gov.uk.

9.9 **Cynrhychiolaeth yr Awdurdodau Llai ar Gyrff Llywodraethol:** Cynghorwyr sy'n cynrychioli'r CT ar Fwrdd y Llywodraethwyr: llythyr oddi wrth yr Adran Addysg CSC yn mynegi bod cyfnod y Cyng SJ Walters ar Fwrdd y Llywodraethwyr yr Ysgol Uwchradd, wedi dirwyn i ben. Etholwyd y Cyng Walters am bedair blynedd ychwanegol.
Derbyniwyd llythyr arall yn mynegi bod cyfnod y Cyng A Carter ar Fwrdd y Llywodraethwyr yr Ysgol Gynradd, wedi dod i ben. Diolchwyd i'r ddau gynghorydd am eu gwaith ymroddgar a diwyd. Mynegodd y Cyng. Carter yr awydd i beidio â chael ei ail-ethol. Etholwyd y Gyng. L. Mason-George i gynrychioli'r CT ar Fwrdd y Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Ffynnonbedr ar gyfer y bedair blynedd nesaf.

9.10 **Llythyr oddi wrth Dr Zinn parthed Cynllun Prynu Tŷ**: A oes cynllun prynu tŷ'n bodoli'n Llambed a fydd yn galluogi pobl i godi blaendal ar gyfer morgais? Boed i'r Cynghorwyr H.Harris a R.Phillips ymateb yn uniongyrchol i'r ymholiad.

9.11 **Cylchgrawn *Clonc*:** Bydd Dr David Thorne yn cyflwyno erthyglau ar gyfer y papur bro *Clonc* yn ymwneud â newyddion y CT. Penderfynwyd anfon copiau o'r cofnodion iddo.

9.12 **Cyfarfod Ardal Ceredigion Un Llais Cymru**: 20/01/2009: Adroddodd y Gyng. D.Williams i'r cyfarfod gynnwys cyflwyniad gan Mr Deryck Willliams Swyddfa Archwilio Cymru. Boed i faterion eraill gynnwys y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth – Cynllun Cyhoeddi Gwybodaeth a'r Cynllun Datblygu Lleol – Grŵp Rhanddeiliad Gwybodaeth.

9.13 **Cyngor ar Bopeth:** nid ydynt wedi apwyntio person i gymryd lle'r person yr arferai wneud cyflwyniadau ar gyfer mudiadau. Fel canlyniad, ni all cais y CT am gyflwyniad ddod i fodolaeth ar hyn o bryd. Caiff y mater ei drafod yn ystod cyfarfod o Fwrdd CAB a drefnwyd ar gyfer 12 fed o Chwefror.

9.14 **Gohebiaeth oddi wrth Mr Dorian Jones Cadeirydd Apêl Llambed ar gyfer** Eisteddfod yr Urdd 2010 yn gofyn tybed a fyddai'n bosibl i gynrychiolaeth o Bwyllgor yr Urdd i fynychu'r cyfarfod nesaf y CT i godi ymwybyddiaeth o'r Eisteddfod ac i geisio cymhorthdal. Cytunwyd i gyfrannu £500 at yr Apêl ac ystyried gwneud cyfraniad arall maes o law. Cytunwyd y byddai'r gynrychiolaeth yn bresennol yn ystod y Cyfarfod nesaf.

9.15 **Cynllun Grantiau Bach Gweithgaredd Lles i hybu lechyd a Lles yng Ngheredigion CSC:** Cytunodd y Cyng. G.Evans i glustnodi sylw pellach i'r mater.

9.16 **Gwahoddiad: Cynhadledd Pontio'r Cenedlaethau a Lansiad Fframwaith** Ymgysylltu Cymunedol Ceredigion Dydd Iau 5ed o Fawrth 2009 9.30am tan 2.30pm Pafiliwn Pontrhydfendigaid.

9.17 **Gohebiaeth eraill**: er gwybodaeth yn unig.

10. MENTER LLAMBED

Adroddodd y Cyng. G.Evans y newyddion diweddaraf yn ymwneud â Menter Llambed.

10.1 **Mae'r cyfweliad ar gyfer y swydd Swyddog Datblygu** wedi cymryd lle ynghynt yn y dydd.

10.2 **Bydd *Transition Llambed* yn cysylltu â'r Cyngor Sir** i ofyn tybed a fyddai'n bosibl iddynt logi'r Neuadd ar gyfer cynnal Marchnad i'r Dref yn ogystal â chynadleddau, cyfarfodydd ac achlysuron arlwyo. Penderfynwyd cefnogi'r

fenter mewn egwyddor. Byddai'n cael ei grybwyll yr hoffai aelodau'r CT gael eu hysbysu o'r datblygiadau parthed y mater ee adnoddau ar gyfer parcio.

10.3 Clustnodwyd sylw pellach i'r *Cynllun Cwymp Mewn Egni*.

11. CYNLLUNIO

11.1 Derbyniwyd y ceisiadau canlynol gan GSC

Dyddiad a dderbyniwyd y cais gan y CT:	Rhif y Cais:	Ymgeisydd:	Cais i :	Lleoliad:	Sylwadau'r Cyngor Tref:
18/12/2008	AO81158	Mr C. Saunders	Newid Amod Rhif o'r Caniatâd cynllunio A031102	LAS Cyf, Heol Tregaron Road, Llan	Dim gwrthwynebiad
28/01/2009	A090042	Mr N Wright	Estyniad cefn llawr cyntaf i'r rhan o'r tŷ sydd wedi ei osod ar wahân.	19 Stryd Fawr, Llanbedr PS	Dim gwrthwynebiad
21/01/2009	A090026LB	Mr BG Taylor	Newid ffenestri fel eu bod yn gweddu i'r presennol.	Beechwood 30 Stryd Fawr Llanbedr PS	Dim gwrthwynebiad
18/12/2008	A081161	Mr A Hughes	Trawsnewid adeilad allanol i annedd ac adeiladu garej/ ystafell blesera	Beudy Pontfaen Heol Pontfaen Llanbedr PS	Dim gwrthwynebiad
17/12/2008	A081123	Mr JH Jones	Codi aneddle	Tŷ Newydd Ffordd Glynhebog Llanbedr PS	Dim gwrthwynebiad
17/12/2008	A081134	Mr EDL Pugh	Ffurfio mynedfa ar gyfer cerbydau	Tanforest Tregaron Rd Silian	Dim gwrthwynebiad

11.2 Boed i'r ceisiadau canlynol eu caniatau gan GSC

Hysbyswyd gany CT gan GSC	Rhif y Cais:	Ymgeisydd	Lleoliad	Caniatâd ar gyfer:
9/01/2009	A080187	Mr N Wright	19 Stryd Fawr Llanbedr PS	Ataliad defnydd A3 (bwyd a diod) Y defnydd yn cael ei gyfyngu i gwsmeriaid rhwng 7.00am a 6.30pm yn unig.

22/01/2009	A081054	Mr K Hoh	17 Stryd Fawr Llanbedr PS	Trawsnewid siop Cludfwyd i ffurfio Tŷ Bwyta: 17 Stryd Fawr, Llanbedr PS
22/01/2009	A081055	Mr K Hoh	17 Stryd Fawr Llanbedr PS	Uned Storio Newydd: 17 Stryd Fawr, Llanbedr PS
26/11/2008	A080959	Mr & Mrs Fillery	Afon Del Heol Glynhebog Llanbedr PS	Adeiladu llysieudy.
5/12/2008	A080990	Mr N Wright	Newid ac estyniad i'r swyddfa ategol a storio.	18 Stryd Fawr Llanbedr PS

11.3 Hysbyswyd y CT am yr Apêl i'r Cynulliad Cenedlaethol gan y sawl yr enwir isod *Y Penderfyniad i Wrthod Caniatâd Cynllunio* ar gyfer y cynnig isod yn 56 Heol y Bont Llanbedr PS.

Dyddiad yr hysbyswyd y CT gan GSC a Rhif y Cais:	**Ymgeisydd a Lleoliad:**	**Cais:**	**Sylwadau:**
4/12/2008 A071116	Mr & Mrs Davies 56 Heol y Bont Llanbedr PS	Dymchwel adeilad presennol a codi adeilad newydd i gynnwys 2 fflat a stiwdio artist.	Caiff unrhyw sylwadau a wnaed adeg cyflwyno'r cais eu hanfon at yr Arolygydd Cynllunio Cynulliad Cenedlaethol. Gwahoddir sylwadau ychwanegol erbyn yr 13/01/2009- ni gyflwynwyd sylwadau pellach gan y CT.

11.4 Cofnodion Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC: Swyddfa'r Cyngor Sir, Penmorfa Aberaeron, 12/11/2008 a 10/12/2009 ac Agenda y cyfarfod o'r 14/01/2009: er gwybodaeth**.**

11.5 Lansio gwefan newydd

Ym mis Tachwedd lansiodd Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion wefan ar ôl ei hail-ddylunio i gynnwys amrywiol nodweddion newydd. Mae'r wefan wedi ei dylunio i roi gwybodaeth helaeth i drigolion Ceredigion ynglŷn â cynllunio yng Ngheredigion. Am wybodaeth pellach cysylltwch â planning@ceredigion.gov.uk

12. CYLLID

12.1 Ceisiadau Ariannol:

12.1.1 Sioe Amaethyddol Llanbedr PS: £100

12.1.2 Cynllun Fan Bobi Ymddiriedolaeth Atal Troseddau Dyfed Powys: £50.00

12.1.3 Macmillan Cancr £100

12.2 Penderfynwyd i beidio a chyfrannu tuag at yr elusennau canlynol megis: Cadwgan (Castell Aberteifi); Sefydliad Aren Cymru; Shelter Cymru ac Eisteddfod Llangollen.

12.3 Cyflog y Clerc (Rhagfyr) £497.00

12.4 Golau/Gwres/Storio: £20.00

12.5 Treth Incwm a Chyfraniadau YC: £91.36

12.6 Yswiriant Y Cyngor Tref: £1,335.71: Hysbyswyd y darparwyr, sef *Yswiriant Zurich* o'r offer chwarae newydd ym Mharc yr Orsedd. Adroddodd y Gyng. D.Williams fod angen codi yswiriant ychwanegol ar gynghorwyr 75 mlwydd oed ac yn ychwaneg. Y Clerc i ymgymryd ag ymholiadau pellach.

12.7 BT Band Eang: (cwarter) £99.62 TAW £13.00

12.8 Goleuadau Nadolig: £789; TAW £118

12.9 Cymdeithas o Glercod Llywodraeth Leol Tanysgrifiad Blynyddol: £105.00

12.10 Mae trefniadau mewn llaw i drosglwyddo £40,000 o gronfa ariannol y CT i Gymdeithas Adeiladu Abertawe. Enwebwyd y Gyng. Dorothy Williams a'r Cyng. Rob Phillips i gymryd cyfrifoldeb am reoli'r cyfrif.

13. IS-BWYLLGORAU

13.1 LLWYBRAU CERDDED (gan gynnwys Parc-yr-Orsedd)

13.1.1 Grant Cynllun Llwybrau Cymunedol CSC 2009-10: Boed i'r Cyng A.Carter gyflwyno cais am grant o £650 ar y 6/01/2009 ar gyfer gwaith cyffredinol ar lwybrau 61-20; 61-15 x2; 62-11 x2; 62-10x2; 62-17; 62-6/7/8). Mae'r cais hwn am gymhorthdal yn ychwanegol i'r *Cynllun Gwella Tramwy CSC* a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2008 **(**gwnaed cais am gymhorthdal ar gyfer y llwybr yn arwain o iard yr hen orsaf at Longwood; gwneud gwellianau i'r llwybr Forest Walk/Heol y Wîg a gwella cyflwr y llwybr Gwêl y Creuddyn i Aberaeron Cyfeirnod 61/16). Bydd Cymdeithas y Cerddwyr yn cyflwyno cais eu hunain, fel y soniwyd cynt.

13.1.2 Parc-yr-Orsedd: penderfynwyd cydlynu dyddiad ar gyfer yr Agoriad Swyddogol i'r Parc i gynnwys yr offer newydd cadw'n heini sydd wedi eu hariannu o'r *Gronfa Buchedd Actif*- cynigwyd dyddiad yn ystod yr wythnos ym mis Ebrill. Bydd y Clerc yn cysylltu â Chyngor Chwaraeon Cymru ac yn cydweithio â'r Maer. Adroddwyd na fyddai'r Cyngor Chwaraeon yn barod i dalu am yr Agoriad Swyddogol ond y maent yn barod i gynnig help llaw â'r trefnaidau. Caniateir y cyhoedd i fynychu'r digwyddiad.

13.1.3 Mynedfa Newydd ar gyfer Parc-yr-orsedd: Derbyniwyd 2 amcanbris o £4,100 (gan gynnwys TAW) a £4,700 gan y Cyngor Sir ar gyfer gosod set newydd o gerrig concrit a gât diogel i blant sy'n cau ar ben ei hun ar fynedfa maes chwarae Parc-yr-Orsedd. Adroddodd y Gyng. D.Williams ei bod yn disgwyl derbyn amcanbris gan berson oedd â diddordeb yn ymgymryd â'r gwaith. Penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd nes derbyn yr amcanbris dan sylw.

13.2 CTCC

13.2.1 Adroddiad Misol ar gyfer Mis Tachwedd CSC: bu yna un cais gan yr heddlu i edrych ar ddeunydd digidol yn ymwneud â difrod troseddol

13.2.2 Adroddiad Misol ar gyfer Mis Rhagfyr CSC: bu yna 4 cais gan yr heddlu i edrych ar ddeunydd digidol yn ymwneud â digwyddiad rheoli traffig; lladrad; cyfathrebiad malais a burgleriaeth.

13.3 GOLEUADAU STRYD

13.3.1 Mae'r Ymddiriedolaeth Highmead wedi trwsio cloc y dref sydd yn awr yn goleuo ac yn taro – penderfynwyd diolch iddynt am eu ymateb chwim.

13.3.2 Llythyr oddi wrth Mr Neil Garrod CSC yn cadarnhau derbyn gwybodaeth oddi wrth y CT parthed diffodd goleuadau tu allan i ganol y dref rhwng canol nos a 5.00am gan gychwyn ar y 1/04/2009.

13.4 PALMANTAU

13.4.1 Penderfynwyd gofyn i'r CSC am fwced o dywod ar gyfer yr Ystâd Penbryn a'r maes-parcio'r Rookery.

13.4.2 Adroddodd y Gyng. C.Barton fod y cam nesaf i osod palmantau newydd ar Heol y Bont ar fin gychwyn.

14. U.F.A.

14.1 Cytunwyd gofyn i GSC petai'n bosibl i'r Heol Un-Ffordd Mountwalk gael ei throsi i ganiatau cerddwyr yn unig.

15. Dyddiadau y cyfarfod nesaf:
Nos lau 26ain o Chwefror am 7.30pm.

Daeth y Cyfarfod i ben am 10.35pm.

Nos lau 26ain o Chwefror am 7:30pm – Cyfarfod Misol

----------(Cadeirydd)

_____ (Dyddiad)